Santes Brigit *c.*455–523

Santes Wyddelig

Fel llawer o'r seintiau Celtaidd cynnar deuai Brigit o deulu bonheddig. Pennaeth llwyth o Leinster oedd ei thad, Dubthach, o linach brenhinoedd Iwerddon. Pan aned Brigit yn 455 roedd ei theulu'n byw yn Faughart, ger Dundalk yn Ulster. Yn fuan wedyn symudodd y teulu i gyffiniau Kildare lle y cafodd ei magu. Yno fe'i bedyddiwyd ac fe gafodd addysg gyffredinol a chrefyddol gan fod ei rhieni yn Gristnogion.

Pan ddaeth Brigit i oed penderfynodd fynd yn lleian. Ar ôl iddi gael ei hyfforddi aeth at esgob lleol a rhoddodd ef wisg wen iddi. Ymunodd wyth o ferched eraill gyda hi i fod o dan ei harweiniad a'i gofal. Oherwydd ei duwioldeb a'i natur annwyl ddeniadol daeth rhagor o ferched ieuainc ati ac aeth y sôn am ei chymuned ar led trwy'r wlad.

Lluniodd reolau caeth a manwl ar gyfer ei sefydliad cyntaf a dechreuodd esgobion o wahanol ardaloedd yn Iwerddon ei hefelychu. Ymwelodd â Longford, Tipperary, Limerick, de Leinster a Roscommon, gan sefydlu lleiandy ymhob un.

Gofynnodd pobl Leinster a fyddai'n barod i sefydlu cartref parhaol yn eu plith, ac felly y gwnaeth. Rhoddwyd darn o dir iddi ar lain gwelltog gwastad a elwid yn Curragh Kildare. Yma adeiladwyd eglwys fechan bren yng nghysgod derwen fawr. Dyma sut y cafodd y lle ei enw, oherwydd ystyr Kill dara yw eglwys y dderwen neu Kildare erbyn heddiw. Parhaodd y dderwen i dyfu ymhell ar ôl dyddiau Brigit a thrwy'r blynyddoedd roedd gan y bobl leol barch mawr tuag ati.

Ymsefydlodd yno oddeutu 485 pan oedd yn ddeg ar hugain oed. Wrth ymyl yr eglwys adeiladodd annedd iddi hi ei hun a'i chymuned o leianod. Yn fuan wedi hynny, dim ond ergyd bwa oddi wrth y lleiandy, sefydlwyd mynachlog, a ddatblygodd yn ddiweddarach i fod yn un o golegau enwog Iwerddon. Wrth i'r cymunedau Cristnogol a'r dref dyfu dymunai Brigit

gael esgob i oruchwylio dros yr holl waith. Penodwyd Conleth, meudwy lleol a gŵr duwiol, i gyflawni'r gwaith ac ef oedd esgob cyntaf Kildare.

Lledodd y sôn am ddoethineb Brigit a deuai brenhinoedd a phenaethiaid o bell ac agos i ymgynghori â hi. Un o'i rhinweddau mawr oedd haelioni a charedigrwydd tuag at y tlodion. Ni allai oddef gweld dioddefaint heb geisio ymateb iddo a'i leddfu.

Er bod ganddi gymeriad addfwyn a thyner roedd yn gweithredu disgyblaeth lem yn ei lleiandai. Trwy hyn rhoddodd arweiniad clir i ferched a ddymunai ddilyn bywyd lleian a bod yn rhan o gymuned grefyddol.

Bu farw yn Kildare ac addurnwyd ei bedd â cherrig gwerthfawr, aur ac arian. Pan aeth Gerallt Gymro ar daith i Iwerddon ym 1185 dywedodd ei fod wedi dod ar draws tân y Santes Brigit yn Kildare yn Leinster. Tân oedd hwn a losgai'n barhaus ac a gedwid ynghynn gan y lleianod ers dyddiau Brigit. Neilltuwyd eglwysi iddi nid yn unig yn Iwerddon ond hefyd yn Lloegr a'r Alban. Bu farw ar 1 Chwefror 523 a dyna pryd y dethlir dydd gŵyl Brigit.